**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU ATODIAD A**
**Gwasanaethau Archwilio Mewnol – 2022/23 Crynodeb Blynyddol o Negeseuon Allweddol ac Argymhellion**

| | Ardal Archwilio | Negeseuon Allweddol ac Argymhellion ar gyfer Gwella | Hanfodol | Mawr | Cymedrol | Mân | Cyfanswm | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Y Gyflogres (Rheolaethau Allweddol)** | Cynhaliwyd adolygiad o'r Gyflogres (Rheolaethau Allweddol) i roi lefel o sicrwydd i reolwyr bod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni.<br><br>Mae'r 8 argymhelliad a wnaed i wella lefelau rheolaeth fewnol fel a ganlyn:<br>1. Dylid sefydlu llawlyfr gweithdrefnau swyddfa i gwmpasu holl feysydd swyddogaeth y gyflogres, gan roi arweiniad ar y gweithdrefnau rheolaeth fewnol disgwyliedig.<br>2. Dylid defnyddio rhestr wirio'r gyflogres i gofnodi'n gywir y gwiriadau a'r rheolaethau a gyflawnir gan swyddogion y gyflogres, cyn rhediad y gyflogres. Dylid llofnodi a dyddio'r rhestr wirio i wirio bod yr holl wiriadau wedi'u cynnal.<br>3. a) Rhaid i swyddogion y gyflogres sicrhau, os canfyddir gwallau ar y ffurflenni FIN8, y dylid diwygio'r ffurflen a'i hardystio'n gywir.<br>b) Mae angen gwirio pob fformiwla yn y daenlen Tâl a Gedwir i sicrhau bod holl gyfansymiau'r gorsafoedd yn gyflawn ac yn gywir.<br>c) Rhaid cynnal gwiriadau i sicrhau bod y niferoedd sy'n troi allan, presenoldeb, a chwarteri a gofnodwyd ar y daenlen RP yn cysoni'r data taliadau a drosglwyddwyd i iTrent.4.<br>4. a) Dylid adolygu'r data cyflogres a gedwir ar y prif ffeil cyflog Amser Cyflawn a dileu'r holl ddata hanesyddol.<br>b) Rhaid i swyddogion y gyflogres sicrhau, os canfyddir gwallau ar y ffurflenni FIN8, y dylid diwygio'r ffurflen a'i hardystio'n gywir.<br>Dylid cyfrifo cyfanswm y nifer sy'n troi allan, presenoldeb a chwarteri ym mhob Gorsaf Amser Cyflawn a chynnal gwiriadau i sicrhau bod y cyfansymiau'n gyson â nifer y bobl sy'n troi allan, presenoldeb a'r chwarteri a drosglwyddwyd i iTrent am dâl. | **0** | **0** | **6** | **2** | **8** | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 5. Dylid sefydlu trefn ysgrifenedig sy'n nodi mai dim ond drwy'r gyflogres y dylid prosesu hawliadau am oramser ac oriau ychwanegol, os cânt eu hardystio gan swyddog ar lefel rheolwr gwylfa neu uwch. Rhaid cynnal gwiriadau i sicrhau bod hawliadau'n cael eu hardystio'n briodol gan swyddog awdurdodedig.<br>6. Dylai TechOne gynhyrchu adroddiad gwrthod cod annilys i sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o godau annilys a'r diwygiadau a wneir.<br>7. Yn annibynnol ar y gyflogres, dylid cysoni'r cyfrif rheoli tâl gros a data'r gyflogres â'r cyfriflyfr cyffredinol bob mis. Dylid cofnodi'r cysoniad a nodi unrhyw amrywiannau.<br>8. Rhaid gwirio codau dal yn fisol, i sicrhau eu bod yn cael eu clirio i sero h.y. bod yr holl ddidyniadau a delir i mewn i god dal yn cael eu clirio pan wneir y taliad i'r trydydd parti. Mae angen ymchwilio i unrhyw amrywiannau i sefydlu'r rheswm, a chofnodi'r camau a gymerwyd. Ystyrir y dylai'r cysoniadau hyn gael eu dogfennu a'u hardystio'n briodol. | | | | | | |
| 2 | **Credydwyr (Rheolaethau Allweddol)** | Cynhaliwyd adolygiad o Gredydwyr (Rheolaethau Allweddol) i roi lefel o sicrwydd i reolwyr bod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni.<br><br>Mae'r 12 argymhelliad a wnaed i wella lefelau rheolaeth fewnol fel a ganlyn:<br>1. a) Dylid llunio llawlyfr gweithdrefnau i roi arweiniad manwl i'r rhai sy'n gwneud a chymeradwyo archebion ar archebu nwyddau a gwasanaethau a'r rheolaethau mewnol disgwyliedig.<br>b) Dylid llunio llawlyfr gweithdrefnau ar gyfer swyddogion cyllid, sy'n gyfrifol am wirio a phrosesu anfonebau i'w talu.<br>2.<br>a) Dim ond ar gyfarwyddyd ysgrifenedig gan ddeiliad y gyllideb y dylid gwneud newidiadau i'r swyddogion hynny sydd wedi'u hawdurdodi ar TechOne i fewnbynnu ac awdurdodi archebion.<br>b) Dylid cynnal cysoniad bob 6 mis rhwng rhestr llofnodwyr annibynnol y Gwasanaeth ac adroddiad TechOne o swyddogion awdurdodedig.<br>c) Mewn ymgynghoriad ag AD a TGCh, dylid sefydlu proses lle mae newidiadau i'r rhestr llofnodwyr awdurdodedig yn gysylltiedig â'r broses o newidiadau o ran staff newydd/staff sy'n gadael/contractau. | **0** | **0** | **7** | **5** | **12** | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | d) Os gwneir swyddogion yn llofnodwr awdurdodedig dros dro, yna rhaid darparu dyddiad gorffen neu adolygu i sicrhau nad ydynt yn parhau i fod yn gymeradwywyr pan fydd eu cyfnod 'dros dro' wedi dod i ben.<br><br>3. Dylid gwneud trefniadau i'r holl lofnodwyr awdurdodedig, sy'n ymwneud â phenderfyniadau cytundebol neu brynu, ddatgan unrhyw gysylltiadau neu fuddiannau personol a allai fod ganddynt â chyflenwyr a/neu gontractwyr yn unol â'r Rheoliadau Ariannol. Ni ddylai unrhyw swyddog sy'n datgan buddiant o'r fath gymryd rhan (na gweithredu fel ei fod yn dylanwadu neu'n ymddangos fel pe bai'n dylanwadu) mewn unrhyw benderfyniadau caffael sy'n ymwneud â'r mater y mae ganddo fuddiant o'r fath ynddo.<br>4.<br>a) Rhaid cynnal ymarfer 'cymhennu' trylwyr i adolygu'r nifer uchel o archebion sydd 'ar y gweill' am gyfnod hir. Mae angen gweithio gyda defnyddwyr, i glirio unrhyw archebion, nad oes eu hangen mwyach.<br>b) Dylid rhedeg adroddiad yn fisol yn dangos yr archebion a godwyd, nad ydynt wedi'u paru â'r anfoneb gysylltiedig; gellir gwneud ymholiadau pellach wedyn i gadarnhau a yw'r nwyddau wedi'u derbyn neu a oes angen canslo'r archeb berthnasol.<br>5.<br>Mae angen canllawiau ychwanegol ar ddeiliaid cyllidebau a chymeradwywyr ar gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau i sicrhau cydymffurfiaeth â CPR. Mae angen arweiniad, yn enwedig yn y meysydd canlynol:<br>a) Rhaid ceisio o leiaf 3 Dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol.<br>b) Rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar yr un fanyleb a'u gwerthuso ar sail tebyg am debyg.<br>c) Rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a geisir, y broses werthuso a'r penderfyniad i ddyfarnu.<br>d) Rhaid atodi Dyfynbrisiau a Cheisiadau Hepgor i'r cyfrif AP cysylltiedig.<br>6.<br>a) Dylid atgoffa defnyddwyr o bwysigrwydd cwblhau'r 'Dderbynneb Nwyddau' yn brydlon er mwyn gallu talu'r anfoneb.<br>b) Os bydd Swyddogion Cyllid yn llenwi'r 'Dderbynneb Nwyddau', rhaid cadw e-bost oddi wrth y swyddog cyfrifol ar y cyfrif AP yn cadarnhau bod nwyddau neu wasanaethau wedi'u derbyn. | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 7. Dylid rhedeg adroddiad yn fisol yn dangos yr holl 'Anfonebau Gohiriedig', na ellir eu paru â'r nodyn PO a nwyddau a dderbyniwyd cysylltiedig. Byddai hyn yn galluogi ymholiadau pellach i gael eu gwneud i gadarnhau bod yr anfoneb yn ddilys, a bod y gwaith neu'r nwyddau wedi'u derbyn; yna gellir gwneud taliad yn brydlon i'r cyflenwr.<br>8. Ar ôl pob rhediad talu, dylid cynhyrchu *adroddiad taliad dyblyg*, sy'n paru rhif a swm yr anfoneb â thrafodion eraill i ddangos copïau dyblyg posibl.<br>9.<br>a) Dylid gwirio manylion cwmnïau newydd ar y Rhyngrwyd i sicrhau eu bod yn bodoli ac i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth niweidiol am sgamiau a gyflawnir gan y cyflenwr neu yn ei enw.<br>b) Dylid rhedeg adroddiad dilysu rhif TAW ar ôl pob rhediad talu, gan restru'r holl rifau TAW newydd. Bydd hyn yn caniatáu gwirio ar wefan CThEF ei fod yn rhif TAW dilys ac yn rhoi sicrwydd pellach ei fod yn gwmni cyfreithlon.<br>10. Rhaid i newidiadau i fanylion banc bob amser gael eu gwirio gyda'r cyflenwr trwy alwad ffôn a siarad â chynrychiolydd cwmni. Dylid gwneud nodyn ar y cyfrif i ddangos y gwiriad dilysu.<br>11. Dylai'r Gwasanaeth sefydlu diwrnod talu a gwneud rhediad taliadau credydwyr wythnosol.<br>12. Dylid gosod targed dangosydd perfformiad ar gyfer canran y taliadau credydwyr a wneir o fewn 30 diwrnod. Dylid rhedeg adroddiad bob 6 mis, yn dangos perfformiad y Gwasanaeth, a allai gael ei fonitro gan uwch reolwyr. | | | | | |

- Mae'r rheolwyr wedi cytuno i roi 18 o argymhellion yr archwiliad ar waith.
- Yn yr adroddiad archwilio Credydwyr (Rheolaethau Allweddol), cafodd dau argymhelliad (Arg 8 ac 11) eu categoreiddio fel *Mân*, ac mae'r rheolwyr o'r farn bod rheolaethau ar waith i wneud iawn am hyn.

**ATODIAD B**

## NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

## Rhestr o Archwiliadau Dilynol 2022/23

| | Disgrifiad | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad yr Archwiliad Dilynol | Nifer yr Argymhellion | Gweithredwyd | WIP / Yn rhannol | Heb eu Gweithredu | Ddim yn Berthnasol Bellach | Barn Archwiliad Gwreiddiol | Barn Archwiliad Diwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Gyrru Peiriannau Tân mewn Argyfwng (EFAD)** | Ebrill 2022 | Ion 2023 | 8 | 4 | 3 | 0 | 1 | **BODDHAOL** | **UCHEL** |

**ATODIAD C**

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Crynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol 2022/23

| | Adran / Gwasanaeth | Dyddiau Arfaethedig 2022/23 | Dyddiau Gwirioneddol 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **1** | Y Gyflogres (Rheolaethau Allweddol) | **15** | **18.5** |
| **2** | Credydwyr (Rheolaethau Allweddol) | **15** | **19.5** |
| **3** | Storfeydd | **15** | **0** |
| **4** | **Archwiliad Dilynol:**<br>• Gyrru Peiriannau Tân mewn Argyfwng (EFAD) | **5** | **4** |
| **5** | Cynllunio ac Adrodd ATAGC (Gan gynnwys Adroddiad Blynyddol a Gweinyddiaeth) | **6** | **6** |
| **6** | Cronfa Wrth Gefn | **2** | **0** |
| | **CYFANSWM DYDDIAU** | **58** | **48** |
| | **Dyddiau a ddyrannwyd 2022/23** | | **58** |
| | **Dyddiau gwirioneddol 2022/23** | | **48** |
| | **Cyfanswm dyddiau i'w cario ymlaen i 2023/24** | | **10** |

**10 Dyddiau i'w cario ymlaen i 2023/24 i wneud gwaith dilynol ar y Gyflogres (Rheolaethau Allweddol) a Chredydwyr (Rheolaethau Allweddol)**